CYFRES C3

amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 1

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oed Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Lliwiwch y lluniau yn y storïau hyn o'r Efengylau

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th

DARLLENWCH
Luc 19: 1-10

Mae'r stori yma'n sôn am:
Dod yn ffrind i Iesu

Stori 1 Sacheus

Roedd gan Sacheus waith pwysig iawn. Roedd yn casglu arian wrth y bobl. Weithiau, roedd yn cymryd gormod o arian gan bobl!

Roedd Sacheus wedi clywed am Iesu ac roedd eisiau ei weld. Dyn bach oedd Sacheus a doedd e ddim yn gallu gweld dros bennau'r bobl.

Felly, dringodd i ben coeden i ddisgwyl am Iesu!

Llanwch y bylchau.

Dringodd S _ ch _ _ _

i ben _ _ _ _ _ _.

Stopiodd Iesu ger y goeden. Dywedodd wrth Sacheus am ddod i lawr. Roedd Iesu eisiau mynd i gartref Sacheus! Daeth Sacheus i lawr o ben y goeden. Roedd yn falch iawn fod Iesu eisiau mynd i'w gartref. Roedd hwn yn ddiwrnod da iawn i Sacheus!

Dywedodd Iesu wrtho, **(Lliwich y geiriau)**

"Daeth iachawdwriaeth i'r tŷ hwn."

Roedd Sacheus wedi gwneud rhywbeth gwell na rhoi croeso i Iesu yn ei dŷ. Roedd Sacheus wedi rhoi croeso i Iesu yn ei galon! O hyn ymlaen, byddai'n ddyn da yn gwneud ei waith yn onest a dim yn cymryd gormod o arian gan bobl!

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 3: 1-16

Mae'r stori yma'n sôn am:
Bywyd tragwyddol.

Stori 2 Nicodemus

Fel Sacheus, roedd Nicodemus eisiau cwrdd â Iesu. Un noson, aeth Nicodemus i chwilio am Iesu.

Pan ddaeth o hyd i Iesu, cawson nhw sgwrs hir. Doedd Nicodemus ddim yn deall pan ddywedodd Iesu fod angen iddo gael ei eni eto er mwyn mynd i'r Nefoedd.



Dywedodd Iesu,

"Rhaid i ti gael dy eni eto."

Lliwiwch y geiriau.

Beth oedd hyn yn feddwl? Roedd Iesu'n dweud bod rhaid i ni gael math newydd o fywyd er mwyn mynd i'r Nefoedd.

Mae'r Beibl yn galw'r math newydd o fywyd yn "fywyd tragwyddol". Pan fyddwn ni'n gofyn i Iesu ddod i'n bywyd ni, rydyn ni'n cael ein "geni eto" ac yn cael "bywyd tragwyddol".



Dywedodd Iesu wrth Nicodemus y byddai'n rhaid iddo (Iesu) ddioddef a marw. Roedd Iesu'n fodlon dioddef a marw er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol. Mae cael bywyd tragwyddol yn ein gwneud ni'n barod i fynd i'r Nefoedd.

Pa fath o fywyd ydyn ni'n ei gael pan fyddwn ni'n credu yn Iesu Grist?

B _ _ _ _ T _ _ _ _ _ _ _ _ .

Enw _____

DARLLENWCH
Ioan 4: 4-30

Mae'r stori yma'n sôn am:
Pobl yn cwrdd â Iesu.

Stori 3 Gwraig o Samaria

Un diwrnod, roedd Iesu'n cerdded trwy wlad o'r enw Samaria. Roedd wedi blino ac eisteddodd ger ffynnon i orffwys. Daeth dynes/menyw heibio â llestr i ddal dŵr. Roedd hi wedi dod i nôl dŵr o'r ffynnon.



Llanwch y bylchau.

Roedd Iesu'n cerdded trwy wlad S __ __ __ __ __ a.

Eisteddodd i orffwys ger ff __ __ __ __ __.

Daeth y wraig i nôl d __ __.

Edrychodd y wraig ar y dyn dieithr. Roedd hi'n meddwl mai Iddew oedd e. Roedd hi'n siŵr na fyddai'r dyn eisiau siarad â hi achos doedd yr Iddewon ddim yn siarad â phobl o Samaria. Roedd hi'n synnu pan ofynnodd Iesu iddi estyn diod iddo. Roedd hi'n synnu fwy pan ddywedodd Iesu y gallai roi

"dŵr bywiol" iddi.

Lliwiwch y geiriau.

Wrth iddyn nhw siarad, esboniodd Iesu wrth y wraig pwy oedd e mewn gwirionedd - mai ef oedd y Gwaredwr roedd Duw wedi'i anfon o'r Nefoedd. Credodd y wraig Iesu. Gadawodd hi ei llestr wrth y ffynnon a brysio i ddweud wrth y bobl eraill am Iesu. Daeth llawer o bobl i weld Iesu a chredodd llawer ohonyn nhw ynddo ef.

Mae Duw eisiau i ni gredu yn Iesu fel y gwnaeth y wraig wrth y ffynnon.

Enw

DARLLENWCH
Marc 10: 17-23

Mae'r stori yma'n sôn am:
Rhoi Iesu gyntaf yn ein bywyd.

Stori 4 Dyn ifanc cyfoethog

Un diwrnod, rhedodd dyn ifanc at Iesu. Penliniodd o'i flaen a dweud,

"Beth y mae'n rhaid i mi ei wneud i gael bywyd tragwyddol?"

Lliwiwch y geiriau.

"Wyt ti'n gwybod rheolau Duw?" gofynnodd Iesu.

"Ydw," atebodd y dyn ifanc. "Rwy wedi cadw'r rheolau er pan oeddwn i'n fachgen bach."

"Dim ond un peth sydd ar goll," meddai Iesu.

"Gwertha dy bethau i gyd, rho'r arian i bobl dlawd, a dilyn fi."

Pan glywodd y dyn ifanc hynny, aeth i ffwrdd yn drist iawn! Roedd ganddo lawer o arian ac roedd yn caru'r arian yn fwy nag yr oedd yn caru Iesu! Ei arian oedd y peth pwysicaf yn ei fywyd.

Mae'n rhaid i ni beidio â meddwl bod neb na dim yn bwysicach na Iesu. Iesu yw'r peth pwysicaf.

Rhowch (✓) wrth y brawddegau sy'n gywir a (✗) wrth y brawddegau sy'n anghywir.

1. Doedd y dyn ifanc ddim wedi clywed am reolau Duw. .....
2. Roedd ganddo ddigon o arian. .....
3. Roedd yn caru ei arian yn fwy nag yr oedd yn caru Iesu. .....
4. Aeth i ffwrdd yn hapus. .....

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120